

Adroddiad Monitro Blynyddol Tŷ'r Cwmnïau

1 Ebrill 2016 – 31 Mawrth 2017



Tŷ'r Cwmnïau

Hawlfraint y Goron 2017.

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored v3.0 ac eithrio lle nodir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3 neu ysgrifennwch at yr Information Policy Team, The National Archives, Kew, London TW9 4DU, neu anfonwch neges e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk .

Os ydym wedi nodi bod unrhyw wybodaeth yn destun hawlfraint trydydd parti, bydd angen ichi gael caniatâd deiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael ar www.gov.uk/government/publications
Dylid anfon unrhyw ymholiadau am y cyhoeddiad hwn atom yn: Tŷ'r Cwmnïau, Ffordd y Goron, Caerdydd CF14 3UZ

1. Cyflwyniad

Paratowyd Cynllun Iaith Gymraeg Tŷ'r Cwmnïau yn unol ag adran 21(3) o Ddeddf yr Iaith Gymraeg a chafodd gymeradwyaeth lawn Bwrdd yr Iaith Gymraeg ar 20 Ebrill 2010.

Mae'r adroddiad hwn yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2016 a 31 Mawrth 2017.

Cymerodd James Biott, y Prif Ymgynghorydd Polisi, gyfrifoldeb dros weithrediad y Cynllun Iaith yn Nhŷ'r Cwmnïau ym mis Chwefror 2017. Fe'i cynorthwyir yn hynny o beth gan bwyllgor sy'n cyfarfod yn gyson er mwyn monitro cynnydd a pherfformiad, ynghyd â thîm o siaradwyr Cymraeg y gall ymgynghori â nhw ar faterion pob dydd.

2. Dehongliad

"TC" yw Tŷ'r Cwmnïau

"Deddf 2006" yw Deddf Cwmnïau 2006

"y Cofrestrydd" yw'r Cofrestrydd Cwmnïau

"PAC" yw Partneriaeth Atebolrwydd Cyfyngedig

"PC" yw Partneriaeth Cyfyngedig

"cwmni/PAC Cymreig" yw cwmni neu PAC, yn ôl diffiniad adran 88 o Ddeddf 2006 (fel y bo'n berthnasol i PACau), sydd wedi hysbysu'r Cofrestrydd y lleolir ei swyddfa gofrestredig yng Nghymru. Adeg corffori, rhaid i gwmni ddweud a yw'n bwriadu lleoli ei swyddfa gofrestredig yng Nghymru, Lloegr a Chymru, yr Alban neu Ogledd Iwerddon. Rhaid i gyfeiriad swyddfa gofrestredig y cwmni fod yn y wlad y maent wedi datgan y lleolir ei swyddfa gofrestredig ynddi.

Caiff cwmni Cymreig dewis cael enw Cymraeg a therfyniad enw Cymraeg (h.y. cyfyngedig, cwmni cyfyngedig cyhoeddus) a chaiff ffeilio dogfennau statudol yn Gymraeg. Gall cwmni Lloegr a Chymru fod â chyfeiriad ei swyddfa gofrestredig yng Nghymru neu Loegr, ond ni all y cwmni gael enw Cymraeg na therfyniad enw Cymraeg, ac ni chaiff ffeilio dogfennau statudol yn Gymraeg.

3. Cydymffurfio â'r Cynllun Iaith Gymraeg

Mae TC wedi ymrwymo o hyd i gydymffurfio â'i Gynllun Iaith Gymraeg, a rhwng 1 Ebrill 2016 a 31 Mawrth 2017, cyflawnodd y canlynol:

3.1 Cynhaliodd y pwyllgor iaith gyfarfodydd chwarterol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â Chynllun Iaith TC ac adolygu cynnydd yn erbyn y Cynllun Gweithredu, sydd ynghlwm wrth yr adroddiad hwn. Hefyd cynhaliwyd cyfarfodydd gwasanaeth Cymraeg i ystyried y gwasanaeth a gynigir i gwsmeriaid Cymraeg eu hiaith.

3.2 Parhaodd tîm o siaradwyr Cymraeg o wahanol fannau yn Nhŷ'r Cwmnïau i ymateb i ymholiadau cwsmeriaid. Cafodd ein Canolfan Gysylltu oddeutu 86,000 o alwadau bob mis, yr oedd oddeutu 5 yn alwadau Cymraeg. Cawsant tua 54,000 o negeseuon e-bost y mis hefyd, ac roedd rhyw 30 o'r rhain yn y Gymraeg.

3.3 Yn y cyfnod o dan sylw, cysylltodd 53 o gwsmeriaid Cymraeg eu hiaith â ni gydag ymholiadau, gan gynnwys:

- 51 o ymholiadau cyffredinol, i holi a oedd dogfennau wedi dod i law ac i ofyn am gyngor ar sut i lenwi ffurflenni, sut i gyrchu tudalennau Cymraeg ar GOV.UK, sut i newid manylion cyfarwyddwyr a cheisiadau am ffurflenni papur;
- 2 llythyr yn apelio yn erbyn cosbau ffeilio hwyr.

3.4 Parhawyd i ryddhau'r ffurflenni ffeilio mwyaf cyffredin, sef 95% o'r dogfennau sy'n cael eu ffeilio ar y gofrestr, yn ddwyieithog, a hynny ar bapur ac mewn fformat electronig.

3.5 Roedd yr holl ganllawiau sydd wedi'u creu gan TC ar gael yn ddwyieithog, ac eithrio'r rhai penodol nad ydynt yn berthnasol i Gwmnïau Cymreig (e.e. canllawiau ar faterion sy'n effeithio ar gwmnïau yr Alban yn unig).

3.6 Fe fynychon ni 2 ddigwyddiad allanol yng Nghymru yn ystod y cyfnod adrodd, sef un digwyddiad gan Fusnes Cymru ac un seminar i Gyfarwyddwr Newydd ei B/Phenodi, lle darparasom siaradwyr Cymraeg. Cafwyd ymholiadau yn Gymraeg gan dri pherson yn y digwyddiad hwn. Yn ogystal, gofynasom am wirfoddolwyr Cymraeg eu hiaith i helpu ar ddiwrnodau gwirfoddol. Gwirfoddolodd dau i helpu Ymchwil Canser Cymru yn yr Eisteddfod Genedlaethol.

3.7 Parhaodd cwsmeriaid i ohebu â TC yn Gymraeg, a chawsant ymatebion Cymraeg i'w gohebiaeth. Yn ogystal, gall cwmnïau gofrestru eu dewis iaith ar gyfer gohebiaeth flynyddol trwy gysylltu â TC. Mae'r cyfleuster hwn yn cael ei hysbysebu yn ein canllawiau [Cynnal Busnes yn y Gymraeg](#) ac ar [GOV.UK](#). Cafodd 176 o gwmnïau ychwanegol ohebiaeth ddwyieithog yn ystod y cyfnod adrodd. O gyfanswm o 3.89 miliwn o gwmnïau oedd ar y gofrestr ar ddiwedd y cyfnod adrodd, roedd tua 713 o gwmnïau, 46 PC ac 14 PAC wedi nodi eu bod am gael gohebiaeth ddwyieithog yn awtomatig.

3.8 Cafwyd 108 o setiau o gyfrifon Cymraeg oddi wrth gwmnïau Cymreig, sef 32 yn llai na'r llynedd. Cyfieithwyd pob un o'r gyfrifon hyn i'r Saesneg ar gyfer y cofnod cyhoeddus, a chyfieithwyd 92 o setiau yn fewnol gan ddefnyddio meddalwedd cyfieithu arbenigol er mwyn helpu i ddarparu cyfieithiadau cyson i'r Gymraeg. Hefyd, cyfieithasom i'r Gymraeg oddeutu 140 o ddarnau eraill er mwyn bodloni gofynion ein Cynllun Iaith Gymraeg, sef 39 yn fwy na'r llynedd. Roedd hyn yn cynnwys llythyrau, canllawiau, a gwaith prosiect, ar gyfer y wefan a'r gwasanaethau ar-lein.

3.9 Rhannwyd gwybodaeth hanfodol â chwsmeriaid sy'n siarad Cymraeg am y dyddiadau ffeilio, digwyddiadau a hysbysiadau eraill trwy ein gwefan, trwy ohebiaeth ddwyieithog a thrwy ein cyfrif Twitter @TyrCwmnïau. Cawsom 2 'thrydariad' yn Gymraeg a gafodd atebion yn Gymraeg.

3.10 Roedd yr holl gontractau a gyhoeddwyd yn cynnwys cymal i sicrhau bod ein partneriaid gwasanaethu'n cydymffurfio â rhwymedigaethau TC o ran y Gymraeg.

3.11 Rhoesom gyhoeddusrwydd i ddigwyddiadau Cymraeg yn yr ardal leol, i'r aelodau hynny o'r staff a allai fod â diddordeb mewn mynd iddynt.

3.12 Ym mis Hydref 2016 a Mis Mawrth 2017 aethom i gyfarfod o bwyllgor adrannau'r llywodraeth ganolog sydd wedi'u lleoli yng Nghymru. Diben y pwyllgor hwn yw cynorthwyo â datblygu gwasanaethau cwsmeriaid Cymraeg o ansawdd da ar draws adrannau'r llywodraeth

4. Prif-ffrydio'r Gymraeg

Ystyriodd TC y Gymraeg yn y ffyrdd canlynol:

4.1 Rydym wedi parhau i ystyried ein gwasanaethau cyfrwng Cymraeg o gychwyn cyntaf ein holl brosiectau trwy gynnwys y Gymraeg yn rhestrau cyfeirio'r holl reolwyr prosiect, ac mewn cynlluniau datblygu eraill.

4.2 Ar ddechrau'r cyfnod, roedd TC yn dal i baratoi ar gyfer gweithrediad llwyr y Ddeddf Busnesau Bach, Menter a Chyflogaeth. Rhoddwyd y mesurau terfynol ar waith ar 30 Mehefin 2016. Roedd canllawiau, a ffurflenni allweddol a gynhyrchwyd gan TC ar gael yn Gymraeg ar GOV.UK.

4.3 Yn ystod y cyfnod, roedd TC wrthi hefyd yn paratoi ar gyfer gweithrediad y bedwaredd Gyfarwyddeb Gwyngalchu Arian (a fydd yn dod i rym ar 26 Mehefin 2017). Ymysg pethau eraill, mae'r Gyfarwyddeb yn cyflwyno ffeilio ar sail digwyddiadau h.y. gofyniad am i bobl â rheolaeth arwyddocaol (PRhA) dros gwmnïau gyflwyno diweddariadau i TC cyn pen 14 diwrnod os yw eu manylion yn newid. Yn rhan o hyn, rydyn ni wedi bod yn llunio canllawiau, ac yn paratoi'r ffurflenni allweddol yn Gymraeg.

4.4 Bydd TC yn datblygu rhagor o wasanaethau o'r dechrau i'r diwedd trwy gyfrwng y Gymraeg wrth i ni ddatblygu rhagor ar ein gwasanaeth beta ar gyfer cwsmeriaid. Un gwasanaeth ar gyfer cofrestru a chwilio am wybodaeth cwmnïau yw'r gwasanaeth beta. Fodd bynnag, nid yw'r amserlen ar gyfer gwneud hyn yn glir ar hyn o bryd.

4.5 Rydyn ni wedi cynyddu ein gwaith allestyn digidol yn Gymraeg. Rydyn ni wedi parhau i gynyddu'r cynnwys cyfrwng Cymraeg ar GOV.UK, er enghraifft trwy greu tua 70 o dudalennau Cymraeg i letya'r ffurflenni ansolfedd newydd ar GOV.UK. Rydyn ni wedi cynyddu ein cynnwys a'n cysylltiadau trwy ein cyfrif Twitter Cymraeg hefyd. Yn ogystal, ym mis Mawrth 2017 lansiodd podlediadau Cymraeg TC, sy'n cael eu cynhyrchu gan aelodau o staff sy'n medru'r Gymraeg. Fe gynhyrchon ni bodlediad ar ein gwasanaeth Cymraeg, a gwrandawyd arno 31 o weithiau. Cynhyrchwyd un arall ar Gosbau Ffeilio Hwyr, y gwrandawyd arno 35 gwaith.

5. Dangosyddion perfformiad

5.1 Yn ystod y cyfnod o dan sylw, roedd 17,130 o gwmnïau Cymreig, a 28 o PACau Cymreig wedi eu corffori. Roedd cyfanswm o 644,750 o gwmnïau a 9,120 o PACau wedi eu corffori yn ystod y cyfnod hwn.

5.2 Erbyn diwedd y cyfnod adrodd, roedd yna 38,278 o gwmnïau Cymreig a 274 o PACau Cymreig ar y gofrestr, o'u cymharu â chyfanswm o 3.89 miliwn o gwmnïau a 60,772 PAC.

5.3 Erbyn diwedd y cyfnod adrodd, roedd yna 1,400 o gwmnïau Cymreig ac 14 PAC Cymreig ar y gofrestr oedd wedi eu corffori â therfyniad enw Cymraeg. Cafodd 175 o gwmnïau Cymreig ac 1 PAC Cymreig, eu corffori â therfyniad enw Cymraeg yn 2016/17.

6. Gwasanaethau'r Rheng Flaen

Canran a nifer y staff dwyieithog:

Canolfan Gyswllt TC

6.1 Mae un aelod llawn-amser a dwy aelod rhan-amser o staff y Ganolfan Gysylltu'n ddwyieithog. Mae yna ofyniad contractiol bod ein cyflenwr yn darparu 2 siaradwr Cymraeg.

6.2 Os oes cwsmer yn gofyn yn benodol am gael siarad â siaradwr Cymraeg, ond nad oes un ar gael, rydyn ni'n cynnig y dewis i'r cwsmer o barhau â'r sgwrs yn Saesneg, neu ofyn am rif ffôn i gysylltu â'r cwsmer fel bod siaradwr Cymraeg yn gallu cysylltu â nhw'n uniongyrchol.

Y Dderbynfa Gyhoeddus

6.3 Nid oes unrhyw staff dwyieithog yn nerbynfa TC. Mae'r staff yn gallu cyfarch ymwelwyr yn Gymraeg ac mae yna arwydd amlwg sy'n rhoi gwybod i ymwelwyr bod gwasanaeth Cymraeg ar gael ar gais. Mae gan staff y dderbynfa restr o staff sy'n medru'r Gymraeg y gallant gysylltu â nhw os gwneir cais. Fodd bynnag, ni ofynnodd unrhyw ymwelwyr am gael trafod busnes TC yn Gymraeg yn ystod y cyfnod adrodd.

Llinell gymorth dros y ffôn

6.4 Rydym wedi parhau i ddarparu un rhif ffôn allanol penodol i gwsmeriaid Cymraeg eu hiaith, a gafodd 21 galwad yn ystod y cyfnod adrodd. Roedd y tîm o siaradwyr Cymraeg ar gael i ddelio ag unrhyw ymholiadau Cymraeg hefyd.

7. Hyfforddiant ac Ymwybyddiaeth Iaith

Nifer y staff a gafodd hyfforddiant yn y Gymraeg hyd lefel cymhwyster ardystiedig:

7.1 Bu TC yn cyflogi Prifysgol De Cymru i ddarparu dosbarthiadau Cymraeg ar gyfer staff ar y safle tan Fehefin 2016; fodd bynnag, oherwydd lleihad yn nifer y bobl a oedd yn mynychu'r dosbarthiadau (cwta hanner y rhai a oedd wedi cofrestru a oedd yn mynychu pob dosbarth ar gyfartaledd¹), nid oedd yn hyfyw mwyach parhau i drefnu'r gwersi a thalu tiwtoriaid allanol i'w cynnal ar y safle. Dangosodd gwaith monitro leihad yn nifer y bobl newydd a oedd yn cofrestru ar gyfer gwersi, cynnydd yn nifer y bobl a oedd yn methu â mynychu dosbarthiadau'n gyson ac yn nifer y staff a oedd yn rhoi'r gorau yn llwyr i fynychu'r gwersi; ar y cyfan, gwelwyd dirywiad cyson yn nifer y staff a oedd yn mynychu'r holl ddosbarthiadau Cymraeg yn rheolaidd. Cymerwyd nifer o gamau mewn ymdrech i wella'r sefyllfa - e.e. lleihau nifer y dosbarthiadau, newid amser y gwersi ac agor y dosbarthiadau i sefydliadau eraill sy'n gweithio ar safle TC. Ni fu'r mesurau hyn yn ddigon effeithiol, a pharhaodd y problemau.

¹ Roedd 47 aelod o staff wedi cofrestru hyd Mehefin 2016 (o lefel Mynediad i Rugl) ond nifer fach a oedd yn mynychu'r gwersi, gyda chwta 50% yn bresennol ar gyfartaledd.

7.2 Penderfynwyd felly peidio â pharhau â'r trefniadau gyda Phrifysgol De Cymru ar gyfer Blwyddyn Academaidd 2016/17, a chymerwyd camau i ddarparu cyfleuster dysgu Cymraeg sy'n gyson â Chynllun Addysg Oedolion TC. Mae hyn yn cynnig cyfleoedd gwych i unrhyw aelod o staff sydd am ddysgu Cymraeg, neu sydd am barhau â'u hastudiaethau yn y Gymraeg. Mae TC wedi cefnogi aelodau o staff sydd wedi manteisio ar y cyfle hwn yn llwyr trwy dalu costau cyrsiau ac unrhyw arholiadau, a darparu amser i astudio ar gyfer arholiadau a'u sefyll. Anogwyd staff i gofrestru ar gyrsiau trwy eu Canolfannau Cymraeg i Oedolion lleol. Erbyn diwedd y cyfnod adrodd, roedd wyth o bobl wedi cofrestru ar raglenni dysgu Cymraeg gan amrywio o Lefel Mynediad i Lefel Uwch; roedd 5 wedi cofrestru gyda Phrifysgol Caerdydd, a 3 gyda Phrifysgol De Cymru.

7.3 Bydd TC yn monitro defnydd yn hyn o beth, ac yn cadw golwg ar effeithiolwyd y dull hwn o weithredu.

Nifer y staff sydd wedi cael hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith:

7.4 Atgoffwyd yr holl staff am ein hymrwymiaadau o ran y Gymraeg yn rheolaidd trwy hysbysiadau ar safle Mewnwyd TC ac ar safle cyfryngau cymdeithasol y staff. Parhawyd i ddefnyddio'r dudalen gymdeithasu Cymraeg ar y safle hwn.

8. Technoleg Gwybodaeth

Nifer y systemau TG a aseswyd gan ddefnyddio cynllun achredu meddalwedd ddwyieithog y Bwrdd a nifer y cynlluniau gwella a baratowyd yn sgil asesiadau gan ddefnyddio cynllun achredu meddalwedd dwyieithog y Bwrdd:

8.1 Ni chafodd unrhyw systemau TG eu hasesu gan ddefnyddio cynllun achredu meddalwedd ddwyieithog y Bwrdd; mae cynnwys Cymraeg yn rhywbeth rydyn ni'n dewis ei ymgorffori.

9. Gweinyddu'r Cynllun

Nifer y cwynion a gafwyd am ddiffyg darpariaeth gwasanaethau yn Gymraeg a'r camau a gymerwyd i ddatrys y cwynion:

9.1 Yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn, cafwyd 13 achos o gwsmeriaid yn cysylltu â TC am ei Wasanaethau Cymraeg:

- Cafwyd 4 cwyn gan bobl a oedd wedi derbyn llythyrau uniaith Saesneg. Darparwyd ymddiheuriad ac anfonwyd llythyr yn Gymraeg.
- Sylwodd 1 cwsmer ar wall sillafu yn y Gymraeg yn y Dderbynfa. Darparwyd ymddiheuriad a chywirwyd y gwall.
- Daeth 1 gŵyn i law gan swyddfa Comisiynydd y Gymraeg mewn perthynas â'n trefniadau ar gyfer cyfieithu cyfrifon Cymraeg i'r Saesneg cyn gosod y cyfrifon Cymraeg a'r cyfieithiad ar y cofnod cyhoeddus (roedd hyn yn cyfeirio at fater a gafodd ei ddatrys yn ystod y cyfnod adrodd blaenorol). Ar ôl esbonio'r broses, roedd y swyddfa'r Comisiynydd yn fodlon ein bod yn cydymffurfio â'n Cynllun Iaith a'n dyletswyddau o dan Ddeddf Cwmniâu 2006.
- Gadawodd 1 cwsmer adborth trwy arolwg ar lein i gwsmeriaid gan ddweud bod gwasanaeth beta TC yn uniaith Saesneg. Am na ddarparwyd cyfeiriad e-bost, ni fu modd ymateb i'r cwsmer.
- Daeth 2 gŵyn i law trwy Twitter. Roedd un o'r cwynion yn dweud nad oedd unrhyw siaradwyr Cymraeg ar gael yn TC. Cysylltodd aelod o staff sy'n medru'r Gymraeg â'r cwsmer, ond ni chafwyd ymateb pellach. Roedd yr ail gŵyn yn holi pam roeddem wedi symud y botwm 'Cymraeg' i waelod y dudalen ar y we. Mynnodd Gwasanaethau Digidol y Llywodraeth bod TC yn gwneud hyn er mwyn sicrhau cysondeb â'u safonau ar GOV.UK.
- Cafodd 1 cwsmer anhawster wrth gyrchu datganiad cadarnhau dwyieithog ar lein am nad oedd y cwsmer wedi sylwi ar yr opsiwn 'Cymraeg' ar waelod y dudalen ar GOV.UK. Cyfeiriwyd y cwsmer at y dudalen lle gellid ffeilio'r ffurflen yn Gymraeg.
- Cafwyd 1 gŵyn am fod y cwsmer wedi cael llythyr cod dilysu yn uniaith Saesneg. Esboniwyd wrth y cwsmer ei bod hi'n debyg y gwnaed cais am y cod dilysu trwy'r sgriniau WebFiling Saesneg. Dim ond trwy'r sgriniau

WebFiling Cymraeg y gellir cyhoeddi llythyrau Cymraeg.

- Cafwyd 1 gŵyn am lythyr Gwasanaethau Cymraeg a oedd yn gofyn i gwsmeriaid optio i mewn i'n gwasanaeth Cymraeg (lle'r anfonir llythyrau awtomatig yn ddwyieithog) ac y byddent yn derbyn gohebiaeth Saesneg yn ddiyfyn pe nai bai ymateb yn dod i law. Rydyn ni wrthi'n adolygu ein llythyrau ac rydyn ni wedi newid ein tudalen gwasanaeth Cymraeg ar GOV.UK a'n canllawiau fel y gall cwsmeriaid roi gwybod i ni am eu dewis iaith.
- Daeth 1 gŵyn i law am nad oedd fersiwn ddwyieithog o'r ffurflen cyfrifon cwmnïau segur ar gael. Nid yw'r ffurflen hon ar gael am nad yw'n ffurflen benodedig. Rhoesom gyngor i'r cwsmer ffeilio yn Gymraeg ar lein. Am fod yn well gan y cwsmer o dan sylw ffeilio ar bapur, drafftwyd templed ar gyfer ffurflen ddwyieithog iddi hi ei defnyddio.

10. Casgliad

10.1 Bydd Pwyllgor y Gymraeg yn dal ati i sicrhau bod TC yn parhau i fod yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o dan y Cynllun Iaith. Rydyn ni wedi ymrwymo o hyd i ddarparu gwasanaeth Cymraeg rhagorol ar gyfer ein cwsmeriaid.

Tŷ'r Cwmnïau - Cynllun Gweithredu

Camau Angenrheidiol	Dyddiad targed	Perchennog	Cynnydd hyd yn hyn / nodiadau
---------------------	----------------	------------	-------------------------------

1. Deddfwriaeth a mentrau

Adolygu'r Cynllun Gweithredu pob chwarter	Bob chwarter	Strategaeth a Pholisi	Adolygwyd cynnwys y Cynllun Gweithredu fel rhan o waith Pwyllgor y Gymraeg a gyfarfu yn chwarterol yn 2016/17.
Adolygu'r Cynllun Strategol pob chwarter i gyd-fynd â'r Cynllun Gweithredu ar yr iaith Gymraeg.	Bob chwarter	Strategaeth a Pholisi	Aethom ati i adolygu ein Cynllun Strategol, a chyhoeddwyd Cynllun diwygiedig. Ein hymrwymiad i ddarparu gwasanaethau Gymraeg yw'r sail ar gyfer dwy o'n nodau strategol allweddol, sef: <i>Rhagoriaeth wrth gofrestru a chwilio am gwmnïau a Meithrin diwylliant o berfformio i safonau uchel</i>
Ystyried sut y bydd polisiau, projectau a datblygiadau newydd yn cyd-fynd ag ymrwymadau'r Cynllun Iaith.	Yn parhau	Strategaeth a Pholisi	Rydyn ni wedi parhau a byddwn yn parhau, i ystyried ein Cynllun Iaith wrth gychwyn polisiau, projectau a datblygiadau newydd, fel y mae'r adroddiad hwn yn ei ddangos.
Galluogi cwmnïau Cymreig i fwynhau "Profiad Cymraeg" wrth gorffori.	Hydref 2012	Cyflawni Atebion Busnes	Cwblhawyd hyn yn Hydref 2012.
Hwyluso gwasanaeth corffori ar-lein cyflawn ar gyfer cwmnïau Cymreig yn TC.	Mawrth 2013	Cyflawni Atebion Busnes	Cwblhawyd hyn ar 6 Ebrill 2013.
Gwella'r gwasanaeth Newid Enw ar WebFiling er mwyn cynhyrchu cyfieithiad o'r dystysgrif (sy'n cael ei hadolygu ar hyn o bryd).	Mawrth 2013	Y Gyfarwyddiaeth Cyflawni ar gyfer Cwsmeriaid	Wrth i ni ddatblygu gwasanaeth beta TC ymhellach ar gyfer cwsmeriaid, bydd TC yn datblygu rhagor o wasanaethau sy'n defnyddio'r Gymraeg o ddechrau'r broses i'w diwedd. Fodd bynnag, nid yw'r amserlen ar gyfer gwneud hyn yn glir ar hyn o bryd.

Camau Angenrheidiol	Dyddiad targed	Perchennog	Cynnydd hyd yn hyn / nodiadau
---------------------	----------------	------------	-------------------------------

2. Staffio

Cynnal yr hyfforddiant iaith cyfredol, gan dargedu sgiliau Cymraeg llafar.	Yn parhau	Adnoddau Dynol	Adran 7 o'r adroddiad
Sicrhau bod staff sy'n medru'r Gymraeg yn yr holl brif feysydd gweithredol er mwyn darparu gwasanaeth ar gyfer cwsmeriaid sy'n siarad Cymraeg	Yn parhau	Cyfarwyddwyr	Mae TC yn sicrhau bod staff sy'n medru'r Gymraeg ar gael ym mhob maes er mwyn archwilio gwybodaeth sy'n cael ei ffeilio yn Gymraeg ac ymateb i gwsmeriaid yn Gymraeg.
Hyrwyddo'r hyn sy'n ofynnol o TC o dan y Cynllun Iaith yn fewnol, gan sicrhau bod staff yn deall eu cyfrifoldebau ac yn gwybod ble i droi am gymorth.	Yn parhau	Strategaeth a Pholisi	Defnyddiwyd y safle mewnwyd yn rheolaidd i dynnu sylw ein staff at ein hymrwymiad i'n Cynllun Iaith.
Cynnal y tîm Cymraeg yn TC er mwyn darparu gwasanaethau ar gyfer cwsmeriaid Cymraeg ym mhob maes a chynnal cyfarfodydd cyson i drafod problemau a chynnydd.	Yn parhau	Cyflawni ar gyfer Cwsmeriaid	Mae tîm y Gymraeg wedi parhau i fod ar gael ac wedi cyfarfod yn rheolaidd.

Camau Angenrheidiol	Dyddiad targed	Perchennog	Cynnydd hyd yn hyn / nodiadau
---------------------	----------------	------------	-------------------------------

3. Ymgyrchoedd cyhoedduswydd, arddangosfeydd, hysbysebion a datganiadau i'r wasg

Sicrhau bod siaradwyr Cymraeg yn mynychu pob digwyddiad yng Nghymru lle mae presenoldeb gan TC.	Yn parhau	Y Tîm Digwyddiadau	Paragraff 3.6 o'r adroddiad
Sicrhau bod deunyddiau Cymraeg ar gael mewn unrhyw achlysuron a gynhelir yng Nghymru.	Yn parhau	Y Tîm Digwyddiadau	Cwblhawyd
Sicrhau bod hysbysebion a datganiadau i'r wasg sy'n cael eu cyhoeddi yng Nghymru ar gael yn Gymraeg.	Yn parhau	Adnoddau Dynol/TGCh	Lle cyhoeddir hysbysebion swyddi yn y wasg Gymraeg maent yn ddwyieithog, fodd bynnag nid oes cyfleuster ar gyfer hysbyseb swydd ddwyieithog ar wefan swyddi'r Gwasanaeth Sifil.

Camau Angenrheidiol	Dyddiad targed	Perchennog	Cynnydd hyd yn hyn / nodiadau
---------------------	----------------	------------	-------------------------------

4. Cyhoeddiadau a ffurflenni

Sicrhau bod cyhoeddiadau Cymraeg TC yn cael eu diweddarau'r un pryd â'r fersiynau Saesneg	Yn parhau	Strategaeth a Pholisi	Mae TC yn parhau i sicrhau bod cyhoeddiadau Cymraeg yn cael eu diweddarau yr un pryd â'r cyhoeddiadau Saesneg.
Sicrhau bod ffurflenni statudol Cymraeg yn cael eu diweddarau'r un pryd â'r fersiynau Saesneg.	Yn parhau	Strategaeth a Pholisi	Adran 4 o'r adroddiad.
Monitro defnydd o lythyrau er mwyn sicrhau bod fersiynau Cymraeg yn cael eu defnyddio pan fo hynny'n briodol.	Yn parhau	Datblygu Newid Busnes	Mae TC yn parhau i fonitro'r defnydd o lythyrau er mwyn sicrhau y darperir atebion yn Gymraeg pan fo angen.

Camau Angenrheidiol	Dyddiad targed	Perchennog	Cynnydd hyd yn hyn / nodiadau
---------------------	----------------	------------	-------------------------------

5. Gwefannau

Sicrhau bod y wefan Gymraeg yn cael ei diweddarau'r un pryd â'r fersiwn Saesneg, pan fo hynny'n briodol, a bod y wybodaeth ar y wefan Gymraeg yn gyfoes	Yn parhau	Deall y Cwsmer	Parhawyd i gynyddu'r cynnwys Cymraeg ar GOV.UK.
---	-----------	----------------	---

Camau Angenrheidiol	Dyddiad targed	Perchennog	Cynnydd hyd yn hyn / nodiadau
---------------------	----------------	------------	-------------------------------

6. Cyfarfodydd wyneb yn wyneb

Sicrhau bod modd i gwsmeriaid ofyn am gael siarad â siaradwr Cymraeg os ydynt am gynnal eu busnes yn Gymraeg	Yn parhau	Gwasanaethau i Gwsmeriaid	Mae TC yn parhau i gynnig y gwasanaeth hwn, ond ni chafwyd unrhyw geisiadau amdano yn ystod y cyfnod adrodd.
--	-----------	---------------------------	--

Camau Angenrheidiol	Dyddiad targed	Perchennog	Cynnydd hyd yn hyn / nodiadau
---------------------	----------------	------------	-------------------------------

7. Cyfathrebu ar y ffôn

Sicrhau bod modd i gwsmeriaid sydd am gynnal eu busnes yn Gymraeg ofyn (yn Saesneg) am gael siarad â siaradwr Cymraeg	Yn parhau	Gwasanaethau i Gwsmeriaid	Adran 6 o'r adroddiad.
---	-----------	---------------------------	------------------------

Camau Angenrheidiol	Dyddiad targed	Perchennog	Cynnydd hyd yn hyn / nodiadau
---------------------	----------------	------------	-------------------------------

8. Arwyddion

Sicrhau bod yr holl arwyddion cyhoeddus yn swyddfa Caerdydd yn ddwyieithog.	Yn parhau	Gwasanaethau'r Adeiladau	Cynhyrchir yr holl arwyddion cyhoeddus yn ddwyieithog
---	-----------	--------------------------	---

Camau Angenrheidiol	Dyddiad targed	Perchennog	Cynnydd hyd yn hyn / nodiadau
---------------------	----------------	------------	-------------------------------

9. Cwynion

Sicrhau bod cwynion am wasanaethau Cymraeg TC yn cael eu harchwilio'n fanwl ac yn cael eu datrys yn brydlon, a hynny'n unol â threfn gwynion arferol Tŷ'r Cwmnïau.	Yn parhau	Gwasanaethau i Gwsmeriaid	Adran 9 o'r adroddiad.
Monitro'r cwynion am wasanaethau dwyieithog.	Yn parhau	Gwasanaethau i Gwsmeriaid	Mae'r Ymgynghorydd Gwasanaethau Cymraeg yn monitro'r holl gwynion am y gwasanaeth dwyieithog yn unol â Pharagraff 9 o'r adroddiad.



Tŷ'r Cwmniau